

Disgrifiad Swydd: Swyddi Gwasanaethau Proffesiynol

Cyfadrn/Cyfarwyddiaeth/Maes Gwasanaeth:	Y Gyfadrn Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd
Teitl y Swydd:	Rheolwr Safonau Metadata
Adran/Pwnc:	Gwyddor Data Poblogaethau
Cyflog:	Gradd 8 - £39,906 i £46,049
Oriau gwaith:	35 awr - dydd Llun i ddydd Gwener - 9-5
Nifer y swyddi:	1
Contract:	Penodiad am gyfnod penodedig yw hwn, tan 30 Mehefin 2027
Lleoliad:	Lleolir y swydd hon ar Gampws Parc Singleton

Bydd y Rheolwr Safonau Metadata'n arwain y gwaith o ddatblygu, cysoni, trawsnewid a rheoli'n weithredol safonau metadata a phiblinellau metadata ar draws isadeileddau ymchwil cenedlaethol mawr ac Amgylcheddau Ymchwil Dibynadwy yn SeRP.

Bydd deiliad y swydd yn chwarae rôl hanfodol wrth wneud yn siŵr bod metadata astudiaethau hydredol o boblogaethau yn addas i gael ei ddarganfod, ei ryngweithredu, ei ffedereiddio a'i ailddefnyddio, a hynny ar draws ecosystemau ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol. Gan weithio ar draws nifer o raglenni, ceidwaid data a thimau technegol, bydd y rôl yn rheoli'r gwaith o safoni a thrawsnewid metadata ar lefel astudiaeth a lefel newidyn yn fformatau sy'n addas ar gyfer ystod o blatfformau darganfod, catalogau metadata, a safonau rhyngweithredu.

Bydd y rôl yn cyfrannu at ddatblygu isafswm safonau metadata, modelau metadata cyson, mapiau metadata a phrosesau sicrhau ansawdd metadata.

Mae'r rôl yn gofyn am gyfuniad o ddealltwriaeth dechnegol, cyflwyno gweithredol, ymgysylltu â rhanddeiliaid ac arbenigedd llywodraethu metadata.

Prif Ddiben y Swydd

Safonau a Chysoni Metadata

1. Arwain y gwaith o ddatblygu, gweithredu a chynnal safonau ac ymagweddau cysoni metadata ar draws y Porth Ymchwil Poblogaethau ac ecosystem y Platfform Data Niwrolegol ehangach.
2. Datblygu a chynnal modelau, cynlluniau, templedi, mapiau, geiriau rheoledig, a rheolau trawsffurfiad ar gyfer metadata ar lefel astudio a lefel newidiol.
3. Cefnogi'r gwaith o ddatblygu isafswm safonau metadata ar gyfer astudiaethau hydredol o boblogaethau a sicrhau aliniad â safonau a fframweithiau cydnabyddedig.
4. Cydlynu ac ymgymryd â'r gwaith o drawsffurfio, ail-fformatio, glanhau, a normaleiddio metadata a gweithgareddau sicrwydd ansawdd ar draws amryfal setiau data ac isadeileddau'r garfan.
5. Gweithio gyda cheidwaid data a thimau rhaglenni i fapio metadata yn fformatau safonol sy'n addas ar gyfer eu cynnwys mewn platfformau darganfod a chatalogau metadata cyfunol.
6. Cefnogi'r gwaith o greu a chynnal dogfennaeth tarddiad metadata, dogfennaeth trawsnewid, a phrosesau rheoli fersiynau metadata.
7. Cyfrannu at y gwaith o gysoni metadata'n awtomataidd a llifoedd gwaith cynnwys metadata.

Darganfod Data a'r gallu i ryngweithredu

8. Sicrhau bod metadata wedi'i baratoi, ei strwythuro, a'i gynnal mewn fformatau sy'n addas ar gyfer amryfal blatfformau darganfod, Rhyngwynebau Rhaglennu Cymwysiadau, a gwasanaethau cyfnewid metadata.

9. Cefnogi'r gallu i ryngweithredu rhwng systemau metadata a gynhelir gan SeRP a phlatfformau darganfod allanol gan gynnwys Porth Ymchwil Poblogaethau a Phorth HDR UK.
10. Gweithio'n agos gyda thimau technegol i gefnogi piblinellau cynnwys metadata, rhyngwynebau rhaglennu cymwysiadau, optimeiddio chwilio, mapio ontoleg, a gweithgareddau ffederasiwn metadata.
11. Cefnogi'r gwaith o weithredu mapiau metadata i'r safonau sydd eu hangen ar gyfer eu darganfod gan y garfan, eu darganfod ar lefel newidiol ac offer ymholiadau cyfunol.
12. Cyfrannu at y gwaith o ddatblygu prosesau metadata sy'n cefnogi darganfyddiadau sy'n galluogi deallusrwydd artifisial, cyfoethogi metadata ar sail NLP, a mentrau chwilio semantig.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyflwyno gweithredol

13. Gweithio'n gydweithredol gydag ymchwilwyr, ceidwaid data, timau carfannau, timau technegol, a rheolwyr rhaglenni i gefnogi gweithgareddau cynefino a chysoni metadata.
14. Darparu cyngor metadata arbenigol a chymorth gweithredol i denantiaethau a hybiau SeRP, gan gynnwys DPUK, DATAMIND, UKLLC, a rhaglenni Platfform Data Niwrolegol eraill.
15. Darparu arweiniad, dogfennaeth, templedi, deunyddiau hyfforddi, a gweithdrefnau gweithredol sy'n ymwneud â safonau metadata a rheolaeth metadata.
16. Cefnogi a chyfrannu at weithdai sy'n canolbwyntio ar metadata, gweithgareddau gwaith ymarfer, a chyfarfodydd ymgysylltu â rhanddeiliaid.
17. Meithrin perthnasoedd effeithiol â phartneriaid cenedlaethol gan gynnwys HDR UK, sefydliadau'r GIG, prifysgolion, Amgylcheddau Ymchwil Dibynadwy, a cheidwaid carfannau.
18. Cynnal a hwyluso gweithdai, gweithgorau, a digwyddiadau gwaith ymarfer metadata i gefnogi'r gwaith o ddatblygu, mabwysiadu a gwella safonau metadata, ymagweddau cysoni, a strategaethau rheoli metadata'n barhaus ar draws seilweithiau ymchwil cenedlaethol a phlatfformau data.
19. Arwain gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid i feithrin consensws am safonau metadata, gofynion rhyngweithredu, ac ymagweddau arfer gorau ar gyfer rheoli metadata a darganfod data.
20. Mae'r rôl yn gofyn am deithio ar draws y Deyrnas Unedig yn achlysurol, gan gynnwys mynychu cyfarfodydd â rhanddeiliaid, gweithdai, cynadleddau a sefydliadau partner.

Llywodraethiant, Ansawdd a Chydymffurfiaeth

18. Sicrhau bod gweithgareddau metadata'n cael eu cynnal yn unol â fframweithiau llywodraethu perthnasol, gofynion llywodraethu gwybodaeth a pholisïau sefydliadol.
19. Cyfrannu at brosesau sicrhau ansawdd metadata a gweithgareddau gwelliant parhaus.
20. Cefnogi archwiliadwyedd, tryloywder, ac atgynhyrchu prosesau trawsnewid a chysoni metadata.
21. Cynnal ymwybyddiaeth o safonau metadata newydd, fframweithiau rhyngweithredu, a datblygiadau ar draws y DU a'r dirwedd data ymchwil rhyngwladol.

Dyletswyddau Cyffredinol

1. Cyfrannu'n llawn at bolisïau Galluogi Perfformiad ac Iaith Gymraeg y Brifysgol.
2. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.
3. Arwain ar wella perfformiad iechyd a diogelwch yn barhaus drwy ddealltwriaeth gadarn o'r proffil risg a datblygu diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol.
4. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/y Gyfarwyddiaeth/y Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt.
5. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol

Gwerthoedd y Gwasanaethau Proffesiynol	Mae'r holl feysydd Gwasanaethau Proffesiynol ym Mhrifysgol Abertawe yn gweithredu yn ôl cyfres ddiffiniedig o Werthoedd Craidd - Gwerthoedd Gwasanaethau Proffesiynol - a disgwylir i bob aelod o staff ddangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn o'r adeg gwneud cais am swydd i gyflawni eu rolau o ddydd i ddydd. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym. Rydym yn Broffesiynol Rydym yn ymfalchïo mewn defnyddio ein gwybodaeth, ein sgiliau, ein creadigrwydd, ein gonestrwydd a'n doethineb i ddarparu gwasanaethau arloesol, effeithiol ac effeithlon ynghyd ag atebion o safon ardderchog. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd Rydym yn ymfalchïo mewn amgylchedd gweithio rhagweithiol a chydweithredol o gydraddoldeb, ymddiriedaeth, parch, cydweithio a her, i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid. Rydym yn Ofalgar Rydym yn derbyn cyfrifoldeb am wrando ar ein myfyrwyr, ein cydweithwyr, ein partneriaid allanol a'r cyhoedd, eu deall ac ymateb yn hyblyg iddynt, fel bod pob cysylltiad rhyngddynt a ni yn brofiad personol a chadarnhaol. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym.
Manyleb Person	<u>Meini Prawf Hanfodol:</u> Gwerthoedd: - Tystiolaeth o ymfalchïo mewn darparu gwasanaethau ac atebion proffesiynol - Gallu i weithio mewn amgylchedd o gydraddoldeb, ymddiriedaeth a pharch i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau'r cwsmeriaid. - Tystiolaeth o ymagwedd ofalgar at eich holl gwsmeriaid, gan sicrhau profiad personol a chadarnhaol. Cymwysterau: - Gradd neu brofiad proffesiynol cyfwerth mewn disgyblaeth berthnasol megis gwybodeg iechyd, gwyddor data, cyfrifiadureg, rheoli gwybodeg neu wyddorau biofeddygol neu faes cysylltiedig. Profiad: - Profiad o weithio gyda safonau metadata, rheoli metadata neu weithgareddau cysoni data mewn amgylchoedd ymchwil neu ddata dwys. - Profiad o weithio gyda data strwythuredig a phrosesau trawsffurfio metadata. - Profiad o gefnogi'r gwaith o ddarganfod data, y gallu i ryngweithredu neu fentrau data ffederal. - Profiad o ymgysylltu ag ymchwilwyr, timau technegol neu randdeiliaid allanol. - Profiad o lunio dogfennaeth weithredol, safonau, templedi neu ddeunyddiau arweiniol. - Profiad o weithio ar draws sawl prosiect a blaenoriaeth ar yr un pryd. - Profiad o gynllunio, trefnu a hwyluso gweithdai, digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid, neu weithgorau sy'n cynnwys cyfranogwyr technegol ac annhechnegol. Gwybodaeth a Sgiliau: - Sgiliau dadansoddol a datrys problemau cryf. - Sgiliau trefnu a chyflwyno gweithredol ardderchog.

	- Sgiliau cyfathrebu cryf yn ysgrifenedig ac ar lafar. - Gallu i gyfathrebu cysyniadau technegol i gynulleidfaoedd annhechnegol. - Gallu i feithrin perthnasoedd cydweithredol ar draws timau amlddisgyblaethol. - Sylw cryf i fanylder ac ymrwymiad i ansawdd data - Sgiliau hwyluso gweithdai, ymgysylltu â rhanddeiliaid a meithrin consensws ardderchog, gyda'r gallu i ddod â grwpiau amrywiol ynghyd i ddatblygu ymagweddau a datrysiadau a rennir. Meini Prawf Dymunol: - Profiad o weithio gyda data astudiaeth poblogaeth hydredol neu ddata ymchwil iechyd. - Profiad gyda safonau metadata - Profiad o weithio mewn Amgylchedd Ymchwil Dibynadwy neu isadeiledd data diogel. - Profiad o gyfrannu at isadeiledd data cenedlaethol neu raglenni rhyngweithredu. - Profiad o gefnogi'r gwaith o ddarganfod metadata sy'n galluogi deallusrwydd artifisial neu fentrau chwilio semantig. - Gwybodaeth am egwyddorion data FAIR.
Lefel Iaith Gymraeg	Level 1 – 'a little' - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course. Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma.
Gwybodaeth Ychwanegol	Ymholiadau anffurfiol: Emma Squires – emma@chi.abertawe.ac.uk

